*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 16**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **18/03/19** |
| Swyddog Arweiniol | **Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (01745 535254)** |
| Pwnc | **Paratoi ar gyfer ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (Brexit)** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am y camau sy'n cael eu cymryd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) i baratoi ar gyfer ymadawiad y Deyrnas Unedig (DU) â'r Undeb Ewropeaidd (UE).

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Yn dilyn y refferendwm yn 2016 ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd, mae GTAGC wedi bod yn ystyried pa effaith y gallai gadael yr UE ei chael ar yr Awdurdod a/neu ar weithrediadau'r Gwasanaeth yng Ngogledd Cymru.

3 Drwy weithio'n annibynnol a gyda sefydliadau sy'n bartneriaid i ni, mae GTAGC wedi ceisio canfod yr effeithiau posibl a'r camau y gellid eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol.

4 Yn fewnol, mae strwythurau ar gael i ganfod a chwilio am unrhyw broblemau posibl o ran darparu gwasanaethau tân ac achub. Yn allanol, mae GTAGC wedi bod yn gweithio drwy ei aelodaeth o'r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth i ganfod a lleihau unrhyw effeithiau ar y gymuned ehangach yng Ngogledd Cymru.

**ARGYMHELLION**

5 Bod yr Aelodau'n nodi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad hwn.

**CEFNDIR**

6 Canlyniad y refferendwm a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2016 oedd y byddai'r DU yn gadael yr UE. Ar 29 Mawrth 2017, fe wnaeth DU danio Erthygl 50 o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd i ddechrau ymadawiad y DU o'r UE, sef Brexit. Pennwyd cyfnod o 2 flynedd i adael, sy'n golygu y bydd y DU yn rhoi'r gorau i fod yn aelod o'r UE ar 30 Mawrth 2019.

## GWYBODAETH

7 Mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen i ganfod effeithiau a risgiau posibl yn deillio o Brexit, ac i benderfynu ar fesurau lliniaru a'u rhoi ar waith.

8 Mae nifer o faterion posibl yn gyffredin i lawer o rannau o'r sector cyhoeddus ac maent yn ymwneud, er enghraifft, â'r posibilrwydd o darfu ar y cadwyni cyflenwi, ac effaith straen ariannol mewn economi ansicr yn y DU ar ôl Brexit.

9 Yng Ngogledd Cymru yn benodol, rhoddir ystyriaeth, er enghraifft, i seilwaith ffyrdd a rheoli ffiniau mewn perthynas â phorthladd Caergybi.

10 Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi bod yn gweithio â phartneriaid yn y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth i ganfod risgiau cyfunol neu lle mae angen gweithio ar y cyd i leihau effeithiau negyddol posibl ar, er enghraifft, aelodau o'r cyhoedd a chymunedau lleol.

11 Bu llawer o'r gwaith hwn yn ddamcaniaethol o reidrwydd, ac yn realistig ni ellid gwneud fawr mwy na chadw golwg gan aros am arwyddion mwy pendant o risg.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae ail gynllun llesiant yr Awdurdod yn ymwneud â hwyluso gwasanaethau tân ac achub sydd o ansawdd uchel, yn ymatebol ac wedi'u hintegreiddio'n well. Gallai tarfu, er enghraifft, ar y cadwyni cyflenwi effeithio o bosibl ar allu'r Awdurdod i gyflawni'r amcan hwn. |
| Cyllideb | Straen ychwanegol posibl ar gyllideb Awdurdod o ganlyniad i fesurau lliniaru a/neu effaith yn fwy cyffredinol ar economi'r DU ar ôl Brexit. |
| Cyfreithiol | Mae dyletswyddau cyfreithiol ar yr Awdurdod i gynllunio ar gyfer, a cheisio lliniaru, risgiau a allai effeithio ar ei allu i ddarparu ei wasanaethau statudol ac i sicrhau bod ganddo adnoddau digonol i wneud hynny. |
| Staffio | Ni chanfuwyd dim. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd dim. |
| Risgiau | Risgiau'n gysylltiedig â pharhau i ddarparu gwasanaethau a sicrhau adnoddau ariannol digonol mewn economi ansicr yn y DU ar ôl Brexit (gweler uchod). |